
Cynllun Gwella a Llesiant
2020-21
LLEWN CYFYNGDER Y GELWAIST
Cydweithio
Integreiddio
Cynnwys
Hirdymor
Atal

## Cynnwys


Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Cynllun Cyfunol ar Gyfer Gwella a Llesiant – Drafft Terfynol 2020/21 ..... 2

Cyflwyniad ..... 2

Yr Awdurdod ..... 3

Gwella a llesiant ..... 4

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ..... 5

Datganiad Llesiant yr Awdurdod ..... 7

Amcanion Gwella a Llesiant ..... 9

Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru. ..... 10

Amcan 2: Parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn. ..... 11

Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. ..... 12

Amcan 4: Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid. ..... 13

Amcan 5: Cynnal gweithlu sy'n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg. ..... 14

Amcan 6: Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd. ..... 15

Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu ystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael. ..... 16

Camau tuag ar gyflawni Saith Amcan Gwella a Llesiant yr Awdurdod ..... 17

Sut mae amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod yn cefnogi Nodau Llesiant Cymru ..... 21

Manylion cyswllt ..... 23

Sut i gyfrannu at amcanion gwella ar gyfer y dyfodol ..... 23

Atodiad A ..... 24

Cyfraniadau ariannol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ..... 24

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru Cynllun Cyfunol ar Gyfer Gwella a Llesiant – Drafft Terfynol 2020/21**

## Cyflwyniad

Rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ynghyd ag amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gyfer prosesau cynllunio'r Awdurdod, mae'r rhain yn cael eu trin fel yr un pethau, sef bod amcanion gwella mwy byrdymor yn gallu bod yn gamau hefyd tuag at gyflawni amcanion mwy hirdymor.

Yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar gynllunio ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod droi ei olygon ymhellach i'r dyfodol ac ystyried beth y gall ei wneud nawr i ddechrau gwella bywydau pobl a fydd yn byw yng Ngogledd Cymru yn yr 2020au, yr 2030au a'r 2040au. Dan y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod ddatblygu amcanion llesiant ar ei gyfer ei hun, a'r amcanion hynny yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Dyma gyfle i wasanaethau cyhoeddus feddwl yn y tymor hir a gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â'r materion cymhleth sy'n effeithio ar fywydau pobl ond na ellir eu datrys gan un sefydliad yn unig drwy gynlluniau byrdymor.

Yn 2019, ar ôl adolygu ei ddau amcan gwella a llesiant hirdymor cyfredol, cytunodd yr Awdurdod ar gyfres ddiwygiedig a helaethach o amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2020/21, sy'n dangos cyfraniad ehangach at nodau llesiant Cymru.
Yn gryno, bydd yr Awdurdod yn gwneud y canlynol:

- **gosod a chyhoeddi amcanion llesiant;**
- **cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny;**
- **cyhoeddi datganiad ynghylch ei amcanion;**
- **cyhoeddi adroddiad cynnydd bob blwyddyn;**
- **cyhoeddi ymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.**

Y dyddiad terfynol statudol ar gyfer cyhoeddi'r cynllun[1] yw 31 Mawrth.


[1] Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012 a pharagraff 10 o'r Cyfarwyddyd Statudol "Rhannu Pwrpas Rhannu Dyfodol" (SPSF2).

**Yr Awdurdod**

Cafodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ei sefydlu fel rhan o ad-drefnu llywodraeth leol ar 1 Ebrill 1996. Mae'n cynnws 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Awdurdod yn atebol i'r cyhoedd ac mae ganddo gyfrifoldeb statudol i gynnal gwasanaeth tân ac achub ar gyfer cymunedau Gogledd Cymru, yn unol â'r canlynol:

- Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004
- Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Argyfyngau) (Cymru) 2007 a Gorchymyn (Diwygio) 2017
- Deddf Argyfyngau Sifil 2004
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Diogelu Data y DU 2018.




Cenhadaeth yr Awdurod yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi. Dyma ei werthoedd craidd:

Gallwch gael mwy o wybodaeth yn y fan yma am y Gwasanaeth a'r Awdurdod.

**Gwella a llesiant**

Mae'r Cynllun Gwella a Llesiant hwn yn nodi gweledigaeth yr Awdurdod ar gyfer y dyfodol, a sut y cyflawnir honno drwy gyflawni saith amcan hirdymor. Bwriad cyffredinol y cynllun yw esbonio i'r cyhoedd beth yw bwriadau'r Awdurdod, gwahodd sylwadau ac awgrymiadau, a darparu sail ar gyfer yr asesiad o berfformiad blynyddol a gyhoeddir erbyn mis Medi bob blwyddyn.


Rhaid i Gynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod ddangos ei fod wedi gwella'r hyn mae'n ei wneud o ran un o leiaf o'r saith agwedd ar wella, sef:

1. effeithiolrwydd strategol;
2. ansawdd gwasanaethau;
3. argaeledd gwasanaethau;
4. tegwch;
5. cynaliadwyedd;
6. effeithlonrwydd; ac
7. arloesi.

Yn unol â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, rhaid i gynllun yr Awdurdod gyfrannu hefyd at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl yng Nghymru yn y dyfodol. Rhaid i'r Awdurdod "ddatblygu'n gynaliadwy" er mwyn cyfrannu at greu'r gwelliant hwnnw ym mhoblogaeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn rhestru saith o nodau llesiant ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd, ac maent i'w gweld yn y diagram gyferbyn.

Bwriad y nodau hyn yw hybu synnwyr o bwrpas cyffredin, ac felly annog pobl a sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i helpu i gyflawni'r nodau er lles cenedlaethau o bobl yn y dyfodol.



**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae'r Ddeddf yn mynnu hefyd fod yr Awdurdod yn cymryd rhan fel aelod gweithgar o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r byrddau statudol hyn yn dod â sefydliadau perthnasol at ei gilydd i gynllunio a gweithio ar y cyd ar wella rhagolygon cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol cenedlaethau o bobl yn eu hardal yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod yn aelod statudol o bob un o'r pedwar Bwrdd yng Ngogledd Cymru, sef Wrecsam, Sir y Fflint, Conwy a Sir Ddinbych, ac Ynys Môn a Gwynedd.


Fe wnaeth y pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd Cymru gyhoeddi eu cynlluniau llesiant lleol fel yr oedd yn ofynnol yn 2018. Gofynnwyd am adborth gan drigolion, busnesau ac ymwelwyr, ac anfonwyd copïau fel yr oedd yn ofynnol dan y Ddeddf at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r pwyllgor trosolwg a chraffu yn yr awdurdod lleol perthnasol.










O ddadansoddi cynlluniau llesiant y pedwar Bwrdd, gwelwyd bod cyfanswm o 74 o flaenoriaethau ar gyfer Gogledd Cymru. Cafodd y blaenoriaethau hyn eu dosbarthu dan 16 o benawdau allweddol, sef Cymuned; Tai; Addysg; Addysg Iechyd; Iechyd; Dinasyddion Cyfrifol; Llesiant; Amgylchedd; Cyfrifoldeb Amgylcheddol; Prosiectau Amgylcheddol Cymunedol; Twristiaeth; Economi; Seilwaith; Sgiliau ar gyfer Gwaith; Presgripsiynau Cymdeithasol; ac Iechyd y Gweithlu.

Roedd pob Bwrdd wedi datblygu camau i fynd i'r afael â'r materion cymhleth a nodwyd fel blaenoriaethau yn y cynlluniau. Sefydlwyd gweithgorau i gyflawni'r blaenoriaethau, a chrewyd cynlluniau gwaith ag amser cyfyngedig, gan adrodd ynghylch cynnydd yn rheolaidd i bob Bwrdd ac i'r Awdurdod.

Mae rhai o'r amcanion a ddatblygwyd gan y Byrddau yn cyd-fynd ag amcanion gwella a llesiant hirdymor yr Awdurdod ei hun, a phan welwyd y rhain, dilynir dull integredig i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid.

Datblygir gwaith mewn partneriaeth mewn meysydd fel newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth, cydlyniant cymunedol a gwaith ataliol. Gwneir gwaith i archwilio rhagor o gyfleoedd i gydweithio er mwyn osgoi dyblygu ymdrech ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus ac i'w hannog i rannu adnoddau.

Mae'r pedwar adroddiad blynyddol ar gyfer 2018/19 ar gael drwy'r dolenni isod.

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018/19

Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam 2018/19

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint 2018/19

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

**Datganiad Llesiant yr Awdurdod**

Mae'r Awdurdod yn deall pwrpas a nod y Ddeddf, ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r effeithiau hirdymor y mae penderfyniadau yn eu cael ar gymunedau Gogledd Cymru.

Mae'r amcanion gwella a llesiant sydd yn y cynllun hwn wedi cael eu datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac maent wedi cael eu dyfeisio yn dilyn cyfres o gyfarfodydd â phenaethiaid adrannau, gweithdai ag Aelodau a defnyddio adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2019.

Mae'r amcanion gwella a llesiant wedi cael eu datblygu hefyd yn unol â'r pum ffyrdd o weithio a argymhellir. Dyma'r "**pum ffordd o weithio**" a ddiffinnir yn y Ddeddf:



Edrych ar bethau yn yr **hirdymor** fel nad yw'r hyn sy'n digwydd nawr yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried yr heriau hirdymor sy'n wynebu Gogledd Cymru, gan gynnwys newidiadau ragamcanol yn y ddemograffeg, sef poblogaeth sy'n heneiddio ac yn cynyddu, a chyfyngiadau ariannol y rhagwelir y byddant yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus.



**Atal** problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu.

Mae'r Awdurdod wedi parhau i roi lle canolog i waith ataliol, gan gydnabod bod atal tanau a sefyllfaoedd niweidiol eraill rhag digwydd yn gwneud mwy o synnwyr na dim ond ymateb.



Cael **dull integredig**, gan ystyried sut y gallai ei amcanion llesiant ei hun effeithio ar ei gilydd ac ar gyflawni'r nodau llesiant ar gyfer Cymru.

Mae'r Awdurod wedi dilyn dull integredig, ac mae wedi ystyried strategaethau sefydliadau eraill (er enghraifft, ar gyfer gwasanaethau iechyd cymunedol) yn ogystal â'i strategaeth ei hun.



Cofio'r amrywiaeth gyfoethog o bobl sydd yna yng Ngogledd Cymru, a'u hannog i **gymryd rhan** yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r Awdurdod wedi ymgynghori'n eang ac mae wedi ceisio barn y cyhoedd yn gyffredinol a chynrychiolwyr o grwpiau penodol wrth bennu ei amcanion. Gellir gofyn i'r Awdurdod neu fynd ar wefan yr Awdurdod i gael gwybodaeth am yr ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod yn 2019.



Gweithio **ar y cyd** ag eraill i helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion, ac fel arall, i helpu eraill i gyflawni eu rhai hwy.

Mae'r Awdurdod wedi parhau i feithrin perthnasoedd gweithio cynhyrchiol ag amrywiaeth o sefydliadau eraill, gan gynllunio a chydweithio ar lefelau gwahanol a thrwy wahanol fforymau, gan gynnwys y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Amcanion Gwella a Llesiant

Mae dyletswydd ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd) i fonitro ac asesu i ba raddau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant.

Fe wnaeth y Comisiynydd gyhoeddi adroddiad ym mis Hydref 2019 i edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaed gan gyrff cyhoeddus yn ystod 2017/18. Yn ogystal â phum canfyddiad cyffredinol, adroddodd hefyd ganfyddiadau yn yr amrywiaeth o gyrff y sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau tân ac achub.

Mae canfyddiadau'r Comisiynydd, yn ogystal ag adborth gan staff, Aelodau a'r cyhoedd wedi cael eu defnyddio i adolygu dau amcan gwella a llesiant cyfredol yr Awdurdod, gan arwain at gyfres helaethach o saith amcan gwella a llesiant.

I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r saith amcan gwella a llesiant newydd, mae cyfres o gamau manylach ar gyfer y tymor byr, sydd wedi cael cysylltiad â'r saith nod llesiant drwy ddefnyddio'r diogelwyr taith gan y Comisiynydd.

Roedd cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd ar wefan llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn darparu 'taith' ar gyfer pob un o'r saith nod llesiant, gan amlinellu sawl pwnc perthnasol i bob nod llesiant



## Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i ganolbwyntio ei ymdrechion ar helpu pobl i aros yn ddiogel, boed gartref, yn y gwaith, ar y ffyrdd neu allan yn y gymuned, gan anelu adnoddau at y bobl sydd fwyaf mewn perygl.

Gartref yw'r lle mae pobl yn fwyaf tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân, ac mae hyn yn digwydd er eu bod yn gyfarwydd â chynllun yr adeilad ac fel arfer maent yn agos at o leiaf un llwybr dianc.

Yn ôl ein dadansoddiadau ni o anafusion tân blaenorol, mae nifer o ffactorau'n gallu rhoi pobl mewn mwy o berygl o danau damweiniol yn y cartref, er enghraifft, eu hoedran (plant ifanc ac oedolion hŷn), bod ag anabledd neu gyflwr iechyd cyfyngol, bod ar eu pen eu hunain ar adeg y tân, ac alcohol a/neu gyffuriau yn effeithio arnynt.

Po fwyaf o ffactorau cyfrannol sy'n gysylltiedig â rhywun, y mwyaf o berygl y bydd yn dioddef tân yn y cartref. Heblaw am effaith emosiynol a cholled bersonol sy'n gysylltiedig â thanau yn yn cartref, mae effaith economaidd hefyd, er enghraifft, cost atgyweiriadau, premiymau yswiriant uwch a cholli amser gwaith; cost ymateb brys, gofal meddygol, ail-gartrefu a gofal maeth; yr effaith ar werth eiddo a pha mor ddeniadol yw'r ardal ar gyfer sefydlu busnesau newydd.

Bydd unigolion a chymunedau sy'n gwybod sut i atal tanau ac aros yn ddiogel pan fydd tanau'n digwydd nid yn unig yn fwy diogel ac iachach ond byddant hefyd yn fwy cadarn yn economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae effaith lygrol tanau yn cyfrannu at amgylchedd llai iach, sydd yn ei dro, yn atal pobl rhag gwneud gweithgareddau yn yr awyr agored.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i roi cymorth i safleoedd annomestig i'w helpu i leihau'r risg o dân ac i gydymffurfio â deddfwriaeth, a bydd hefyd yn cynnal ei waith ar y cyd ag asiantaethau eraill megis Heddlu Gogledd Cymru i gefnogi 'Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru' Llywodraeth Cymru.

**Amcan 2: Parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn.**

Mae'r risgiau sy'n wynebu cymunedau yn dirlun sy'n newid ac yn barhaus, ac mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithio gyda phobl i fod yn fwy cadarn, ac i'w cefnogi.
Nid yw cadernid cymunedol yn golygu bod asiantaethau'n gwneud hynny ar eu rhan. Mae'n golygu cefnogi a chymell o'r tu mewn i'r gymuned, a'u helpu i ymrwymo i'r syniad o helpu eu hunain a bod yn gadarn yn ystod argyfwng, megis llifogydd.

Mae'n eithriadol o bwysig gweithio gyda chymunedau lleol i wella diogelwch ac i helpu cymunedau i fod yn fwy cadarn. Mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos ag asiantaethau sy'n bartneriaid iddo, megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r cynghorau sir ar feysydd targedol i gynorthwyo cymunedau a busnesau lleol i rag-gynllunio ac addysgu, gan eu galluogi i fod yn gadarn os oes argyfyngau. Mae cymunedau'n cael gwybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth pan fo angen er mwyn helpu i'w grymuso, ac maent yn cael cymorth a sicrwydd er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl a lleihau effaith digwyddiadau sy'n tarfu.

Mae ffordd yr Awdurdod o wneud gwaith ataliol, sef rhoi cyngor ynghylch diogelwch tân a darparu ymyriadau, wedi cyfrannu at ostwng nifer a difrifoldeb digwyddiadau brys yr eir atynt ledled Gogledd Cymru. Mae'r dull hwn wedi golygu gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Mae atal tanau ac ymateb yn gyflym i argyfyngau yn gymorth i osgoi neu leihau'r gost ddynol, colledion dan yswiriant a heb yswiriant, cost atgyweirio a cholli cynhyrchiant, a phan mae ardal yn llai deniadol i fewnfuddsoddiadau.

Mae gwella diogelwch trigolion a busnesau drwy ymwybyddiaeth, addysg ac ymyrryd, yn ogystal â chanfod cyfleoedd i leihau troseddu megis llosgi bwriadol, yn gallu dod â manteision economaidd i unigolion, cymunedau a busnesau.

Drwy gydweithio â phartneriaid, mae'r Awdurdod yn sicrhau bod neges gydgysylliedig yn cael ei chyfleu, nid yn unig ynghylch diogelwch ond hefyd ynghylch amrywiaeth o fentrau eraill i geisio gwella llesiant y gymuned gyfan. Pan fo gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau gwirfoddol yn cydweithio, gellir osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd drud, a darparu gwasanaeth o ansawdd gwell pan fo angen.

## Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Oherwydd yr ansicrwydd ariannol[2] a'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ymhob rhan o'r sector cyhoeddus, mae'n anochel y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran ei allu i gynnal ei wasanaethau dros y degawdau nesaf. Rhoddir esboniad manylach o'r cyfraniadau ariannol yn atodiad A tua diwedd y Cynllun hwn.

Gall y rhagamcan y bydd y boblogaeth yn heneiddio arwain at lai o bobl o oedran gweithio i gefnogi'r rhai o oedran pensiwn. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol [3] yn dweud hefyd "er bod poblogaeth fwy o faint yn cynyddu maint y gweithlu a'i gapasiti i gynhyrchu, mae hefyd yn cynyddu'r pwysau a'r galw am wasanaethau megis addysg, gofal iechyd a thai".

Felly, mae'r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys y gallu i recriwtio a chadw digon o ddiffoddwyr tân sy'n cyrraedd y safonau ffitrwydd angenrheidiol, yn ogystal â'r posibilrwydd o ehangu swydd diffoddwyr tân a allai gynyddu'r cyflog yn sylweddol.
Drwy resymoli costau'r Awdurdod ei hun a chanfod ffordd gytbwys o ariannu'r gwasanaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd hynny'n gymorth i gynnal gwasanaethau tân ac achub i'r dyfodol, gan wneud yr ardal yn fwy cadarn rhag newidiadau demograffig a newidiadau eraill.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am amrywiaeth eang o asedau, o dir, eiddo a cherbydau i gyfarpar gweithredol, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a meddalwedd. Defnyddir yr asedau hyn i gefnogi gweithgareddau rheng flaen ac ategol, a rhaid iddynt ddarparu lefel uchel o berfformiad o ran dibynadwyedd, diogelwch a chostau.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ei seilwaith digidol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, er mwyn ateb y galw cynyddol am systemau effeithiol, effeithlon a diogel. Bydd yn parhau i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o ddefnyddio technoleg ddigidol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac i sicrhau bod staff yn cael gafael ar wybodaeth pan mae ei hangen arnynt.

---

[2] Gweler (enghreifftiau) : "Cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru 2015-16" Archwilydd Cyffredinol Cymru. https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/445A2016-Financial-resilience-cym.pdf
"Future pressures on Welsh public services", Mark Jeffs, Wales Public Services 2025. http://www.walespublicservices2025.org.uk/files/2016/03/Mark-Jeffs-WPS2025-Summary-Report1.pdf
"Welsh budgetary trade–offs to 2019–20", D. Phillips and P. Simpson, The Institute for Fiscal Studies, Medi 2016. https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/docs/IFS%20report%20R120.pdf

[3] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/articles/overviewoftheukpopulation/august2019

**Amcan 4: Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid.**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wella'r ffordd mae'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phobl ynglŷn â'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, ac er bod ei gyrhaeddiad yn ymestyn, mae'n cydnabod bod lle i wella o hyd.

Mae deall cymunedau, gwrando arnynt a'u cynrychioli yn rhan hollbwysig o swyddogaeth yr Awdurdod. Mae cymdeithas yn newid, felly mae angen newid y ffordd o gyfathrebu â phobl er mwyn sicrhau bod negeseuon yr Awdrdod yn cyrraedd pawb, gan gynnwys grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tan-gynrychioli.

Drwy gryfhau'r llais corfforaethol, bydd pobl yn deall hyd a lled y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurod a'i uchelgeisiau i wella diogelwch a llesiant ledled Gogledd Cymru.

Drwy drefniadau cyfathrebu gwell, megis Facebook y Gweithle, caiff gwybodaeth ei rhannu â staff ar y camau priodol er mwyn rhoi cyfle iddynt gyfrannu at wella gwasanaethau drwy sianeli diogel ac agored.

Drwy weithio ar y cyd â'r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru, a rhanddeiliaid eraill megis Heddlu Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, gall yr Awdurdod sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu hyrwyddo'n gyson ac yn eang.

Drwy sicrhau bod cytundebau rhannu gwybodaeth yn gyfoes, a thrwy geisio sefydliadau cytundebau newydd pan fo'n briodol, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wella diogelwch a lles pobl yng Ngogledd Cymru.

**Amcan 5: Cynnal gweithlu sy’n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg.**

Mae’r Awdurdod yn cydnabod ei bod yn bwysig denu, datblygu a chadw gweithlu sy’n cynrychioli’r amrywiaeth sy’n bodoli yn y cymunedau y mae’n eu gwasanaethu.

Ni ellir gorbwysleiso hyn, felly mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ganolog yn niwylliant a gwerthoedd craidd yr Awdurod, sef ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant; awydd i geisio rhagori; amddiffyn cymunedau a rhoi gwerth ei bobl.

Drwy Strategaeth Gymru gyfan ar gyfer Pobl a Threfniadaeth, bydd yr Awdurdod yn cefnogi ffyrdd newydd o ddefnyddio sgiliau a phroffesiynoldeb y gweithlu.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod y bydd gweithlu sydd wedi cael ei ddatblygu a’i hyfforddi’n briodol i fod yn ddiogel, o fudd i bobl Cymru, tra bydd fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi’i ddatblygu’n dda yn gymorth hefyd i’r rheolwyr wrth ateb gofyn eu swyddi.

Drwy ddatblygu mentrau lleihau absenoldeb, a chanolbwyntio ar hybu iechyd ymysg y staff, mae’r Awdurdod yn cefnogi dull cyfannol o wella llesiant y gweithwyr.

Drwy wasanaethau iechyd galwedigaethol rhagweithiol, mae’r Awdurdod wedi ymrwymo i ganfod a mynd i’r afael ag anafiadau diwydiannol, straen a phethau eraill sy’n achosi absenoldeb salwch, yn ogystal ag i hybu bywyd iach. Mae pob gweithiwr yn cael cynnig arweiniad a chyngor gan ymgynghorwyr ffitrwydd corfforol, dewisiadau ffordd o fyw, ffitrwydd a materion rheoli pwysau, ac maent yn cael cynnig defnyddio cyfleusterau ffitrwydd lleol.

Hefyd, mae darparu Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn gymorth i’r gweithwyr ddelio â phroblemau personol a/neu broblemau’n ymwneud â’r gwaith a allai amharu ar berfformiad eu gwaith, ar eu iechyd a’u llesiant.

**Amcan 6: Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol er mwyn lleihau'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd.**

Yn 2017, fe wnaeth Llywodraeth Cymru osod yr uchelgais o gael sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, sy'n ceisio cefnogi'r sector cyhoeddus i osod llinell sylfaen, monitro ac adrodd ynghylch y cynnydd tuag at garbon-niwtraliaeth.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ganddo ran bwysig i'w chwarae yn amddiffyn yr amgylchedd ac yn lleihau ei effaith ar yr amgylchedd. Mae wedi ymrwymo i wella perfformiad amgylcheddol ac i ystyried hynny ymhob agwedd ar ei waith, o atal tanau i wneud yn siŵr ei fod yn ystyried technoleg sy'n garedig i'r amgylchedd.

Mae'r Awdurdod yn meddwl hefyd am y rhan sydd ganddo i'w chwarae yn helpu pobl Gogledd Cymru i ddeall effaith y tywydd a'r newid yn yr hinsawdd, ynghyd â'r heriau sy'n ei wynebu.

Yn 2013, fe wnaeth yr Awdurdod ailymrwymo i'w bolisïau ynni ac amgylcheddol, ynghyd ag i raglen o welliannau o ran ei ddefnydd o danwydd, cyfleustodau ac adnoddau, y modd mae'n rheoli gwastraff, ac i hybu bioamrywiaeth.

Yn ystod 2020/21, bydd yr Awdurdod yn ymrwymo i adnewyddu ei weledigaeth amgylcheddol i fod yn sefydliad sy'n fwy ymwybodol a chyfrifol yn amgylcheddol, gan weithio mewn partneriaeth a chefnogi pobl a chymunedau i fod yn fwy cadarn.

**Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu ystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.**

Gwerth cymdeithasol yw’r gwerth y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau. Mae’n ymwneud â’r newidiadau y mae pobl yn eu profi, ac mae’n cynnwys gwybodaeth ansoddol, meintiol a chymharol, a hefyd yn cynnwys newidiadau amgylcheddol o ran sut maent yn effeithio ar fywydau pobl.

Mae’r Awdurdod wedi ymrwymo i ddatblygu ei werth cymdeithasol ac i sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried fel rhan o’i holl weithgareddau, gan gynnwys cefnogi Cymdeithasau Diffoddwyr Tân Ifanc a Phrosiect y Ffenics yn yr ardal. Mae Prosiect y Ffenics yn fenter ar gyfer pobl ifanc, i’w haddysgu am bwysigrwydd diogelwch tân a chanlyniadau tanau bwriadol a galwadau ffug.

Mae’r Awdurdod yn cyfrannu hefyd at nifer o strategaethau ar y cyd i gefnogi gwerth cymdeithasol, megis Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru gyfan, sy’n darparu fframwaith ar gyfer y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru i gyfathrebu a gweithredu eu hymrwymiadau o ran diogelwch ar y ffyrdd ar lefel genedlaethol a lleol.

Llwyddwyd i wneud llawer yn y blynyddoedd diwethaf, gan fod gostyngiad yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd o ganlyniad i well diogelwch ar y ffyrdd. Felly, mae’r strategaeth diogelwch ffyrdd yn golygu cydlynu ymdrech i addysgu defnyddwyr y ffyrdd, gan dargedu grwpiau sydd â risg drwy amryw o weithgareddau, ymyriadau a chyhoeddusrwydd sy’n arwain at newid ymddygiad.

Mae gwerth cymdeithasol yn ymwneud hefyd â sicrhau bod materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau.

Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod angen gallu prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd sy’n darparu gwerth am arian a gwasanaeth cyson, tra’n sicrhau bod pob darparwr yn cael cyfle teg, cyfartal a thryloyw i dendro.

Drwy wreiddio gwerth cymdeithasol yn ei brosesau caffael, bydd yr Awdurdod yn dod â manteision sylweddol i Ogledd Cymru a’i drigolion, drwy sicrhau elw cymdeithasol, pryd bynnag y bo modd, i bob punt sy’n cael ei gwario.

## Camau tuag ar gyflawni Saith Amcan Gwella a Llesiant yr Awdurdod

**Amcan 1: Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a llesiant pobl yng Ngogledd Cymru drwy;**

| Cymru lewyrchus | | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | |
|---|---|
| 1.1 | rhoi cymorth i bobl atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd |
| 1.2 | datblygu adnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at ba mor agored yw person i niwed mewn tanau mewn cartrefi, a defnyddio hyn i ddarparu negeseuon targedol ac amserol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r canlyniadau a cheisio dylanwadu a newid ymddygiadau |
| 1.3 | cynnal 20,000 o archwiliadau diogel ac iach, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, gydag o leiaf 25% o'r rheini i aelwydydd y mae asiantaeth arall wedi'i hatgyfeirio at y Gwasanaeth |
| 1.4 | cefnogi asiantaethau eraill i ostwng nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a'r marwolaethau a'r anafiadau sy'n gysylltiedig â nhw |
| 1.5 | gwreiddio egwyddorion amddiffyn yn y gweithgareddau o ddydd i ddydd, a sicrhau bod y rhain yn gyson â pholisïau a chyfarwyddyd cenedlaethol |
| 1.6 | parhau i ddatblygu a chynnal ymyriadau a gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy dargedu gweithgareddau |
| 1.7 | gweithio â sefydliadau sy'n cefnogi pobl fregus |
| 1.8 | cyflwyno hyfforddiant ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i'r holl staff, a rhoi hyfforddiant pellach i staff diogelwch cymunedol rheng flaen |

**Amcan 2: Parhau i weithio ar y cyd i helpu cymunedau i wella eu cadernid drwy;**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | |
|---|---|
| 2.1 | gweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid, megis Cyfoeth Naturiol Cymru a ffermwyr/porwyr, i ganfod lleoliadau yng Ngogledd Cymru sydd â mwy o risg o danau awyr agored/glaswelltir, a helpu i ddatblygu cynlluniau ymateb brys |
| 2.2 | parhau i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynllun amlasiantaethol ar gyfer tanau awyr agored |
| 2.3 | meithrin perthnasoedd â phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, Cyd-Grŵp y Gwasanaethau Brys (JESG) a grwpiau llifogydd mewndirol ac achub o ddŵr, er mwyn gwella galluoedd asiantaethau i helpu pobl sy'n dioddef llifogydd |

| | |
|---|---|
| **Amcan 3: Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy;** | |
| Cymru lewyrchus · Cymru gydnerth · Cymru sy'n fwy cyfartal · Cymru iachach · Cymru o gymunedau cydlynus · Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu · Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | |
| 3.1 | darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru o fewn y gyllideb y cytunwyd arni |
| 3.2 | parhau i wneud arbedion effeithlonrwydd mewnol |
| 3.3 | adeiladu ar fesurau cyfredol er mwyn monitro perfformiad gweithredol gan griwiau tân cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau |
| 3.4 | datblygu model mwy hybyg ar gyfer darparu hyfforddiant a datblygiad, gan gynnwys darparu hyfforddiant yn fwy lleol er mwyn cefnogi anghenion diffoddwyr tân wrth gefn |
| 3.5 | canolbwyntio ar wella effeithiolrwydd y gofal a ddarperir drwy'r System RDS (diffoddwyr tân wrth gefn) |
| 3.6 | adolygu'r gwaith Rheoli Parhad Busnes, a chynyddu gallu'r Gwasanaeth i ddelio â digwyddiadau mawr |
| 3.7 | parhau i fonitro a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd rhaglenni a wneir mewn partneriaeth â sefydliadau eraill |

| | |
|---|---|
| **Amcan 4: Parhau i ganfod cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, cymunedau, staff a rhanddeiliaid drwy;** | |
| Cymru lewyrchus · Cymru gydnerth · Cymru sy'n fwy cyfartal · Cymru iachach · Cymru o gymunedau cydlynus · Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu · Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | |
| 4.1 | codi ymwybyddiaeth o ymosodiadau llosgi bwriadol, helpu i'w hatal, a gostwng nifer y tanau bwriadol a'r galwadau ffug |
| 4.2 | ymgysylltu â chyflogwyr lleol, cymunedau a phobl y mae tân a digwyddiadau brys eraill wedi effeithio arnynt, er mwyn datblygu gweithgareddau ac ymgyrchoedd ataliol |
| 4.3 | hyrwyddo ymgyrchoedd diogelwch cenedlaethol a lleol, gan sicrhau bod meysydd â'r risgiau mwyaf yn cael eu blaenoriaethu, er enghraifft, tanau a achosir gan goginio |
| 4.4 | sicrhau bod cytundebau rhannu gwybodaeth yn dal yn gyfoes, a cheisio sefydlu cytundebau newydd pan fo hynny'n briodol |
| 4.5 | cynnal arolwg iechyd a llesiant ymysg yr holl staff, a hyrwyddo'r gweithgareddau ymhob rhan o'r Gwasanaeth |
| 4.6 | cwblhau adolygiad o'r Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol |

**Amcan 5: Cynnal gweithlu sy’n addas o gadarn, medrus, proffesiynol a hyblyg drwy;**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy’n fwy cyfartal | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | |
|---|---|
| 5.1 | adolygu’r Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant, a rhoi bywyd newydd ynddi |
| 5.2 | gwella ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o’r gwerthoedd craidd diwygiedig, drwy brosesau recriwtio, cadw staff, a chyfleoedd i gamu ymlaen, a chyfathrebu mewnol |
| 53 | datblygu arferion cyflogaeth i geisio cynyddu rhagolygon cyflogaeth pobl a allai fel arall ei chael hi’n anodd cael mynediad at waith, a blaenoriaethu camau i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau |
| 5.4 | parhau i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu cynlluniau prentisiaeth yn y Gwasanaeth |
| 5.5 | darparu hyfforddiant i gadetiaid tân fel y ‘Rhaglen Eiriolwyr Pobl Ifanc y Rhuban Gwyn’ i geisio galluogi pobl i fod yn fodelau rôl ymysg ffrindiau er mwyn helpu i roi terfyn ar drais gwrywaidd yn erbyn menywod |
| 5.6 | adnewyddu ardystiad y Wobr Iechyd Corfforaethol Aur |
| 5.7 | parhau i gyfrannu ar y ‘Strategaeth Cymru gyfan ar gyfer Pobl a Threfniadaeth’ |
| 5.8 | gwella ffyrdd o gefnogi’r staff i fod yn arweinwyr y dyfodol |
| 5.9 | cyhoeddi cynllun strategol ar gyfer 2021 – 2024 |

**Amcan 6: Datblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol yn amgylcheddol er mwyn lleihau’r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd drwy;**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy’n fwy cyfartal | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | |
|---|---|
| 6.1 | sefydlu Bwrdd Strategol sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer yr Awdurdod |
| 6.2 | archwilio cyfleoedd i leihau pecynnau plastig ar nwyddau sy’n dod i mewn i’r Gwasanaeth |
| 6.3 | canfod ffyrdd o ddefnyddio cyflenwadau dŵr mor gyfrifol ag y bo modd |
| 6.4 | gweithio â phartneriaid allanol megis Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio llai o ynni a thanwydd |
| 6.5 | chwilio am gyfleoedd i leihau faint o wastraff mae’r Awdurdod yn ei anfon i dirlenwi |
| 6.6 | canfod ffyrdd o gynyddu bioamrywiaeth ar safleoedd |
| 6.7 | gweithio gyda’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Gogledd Cymru i ddeall newid yn yr hinsawdd o safbwynt rhanbarthol |

**Amcan 7: Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael drwy;**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| | |
|---|---|
| 7.1 | parhau i chwilio am gyfleoedd i ychwanegu gwerth cymdeithasol i gymunedau |
| 7.2 | datblygu Strategaeth Gwerth Cymdeithasol a Chaffael Cynaliadwy |
| 7.3 | archwilio opsiynau ar gyfer caffael yn lleol drwy gydweithio'n genedlaethol/rhanbarthol o fewn y sector tân ac achub ac ar draws asiantaethau goleuadau glas eraill |
| 7.4 | sicrhau bod y gwaith o gaffael cyfarpar gweithredol newydd yn cynnwys ystyried cael gwared arnynt 'ar ddiwedd oes yn llwyr' |
| 7.5 | datblygu rhagor ar gyfleoedd i weithio â Fire Aid i sicrhau bod cyfarpar yn cael ei ailgylchu pan fo modd |
| 7.6 | datblygu pecyn hyfforddi ymwybyddiaeth ar gyfer caffael |


### Sut mae amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod yn cefnogi Nodau Llesiant Cymru


Drwy gyflawni ei amcanion llesiant ei hun, bydd yr Awdurdod yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru. Mae’r diagramau isod yn dangos sut mae’r camau sy’n cefnogi pob un o amcanion yr Awdurdod yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru. Mae’r siartiau isod yn cynrychioli pob un o’r nodau llesiant a sut bydd yr amcanion arfaethedig yn gymorth i’w gyflawni.


Mae’r haen allanol yn dangos rhif y ‘cam’ ar gyfer pob amcan gwella a llesiant, ac mae’r rhain wedi cael eu troi’n segment lliw pan fo hyn yn cyfrannu tuag at gyflawni’r nod llesiant.


Mae’r lliwiau’n cefnogi rhai’r eiconau llesiant unigol.













CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS
AMCAN 1
AMCAN 2
AMCAN 3
AMCAN 4
AMCAN 5
AMCAN 6
AMCAN 7


CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE’R GYMRAEG YN FFYNNU
AMCAN 1
AMCAN 2
AMCAN 3
AMCAN 4
AMCAN 5
AMCAN 6
AMCAN 7


Cymru llewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru iachach
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang


CYMRU IACHACH
AMCAN 1
AMCAN 2
AMCAN 3
AMCAN 4
AMCAN 5
AMCAN 6
AMCAN 7


CYMRU SY’N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG
AMCAN 1
AMCAN 2
AMCAN 3
AMCAN 4
AMCAN 5
AMCAN 6
AMCAN 7

**Manylion cyswllt**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad post: | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ |
| | |
| Ffôn: | 01745 535250 |
| | |
| Gwefan: | www.gwastan-gogcymru.org.uk |
| | |

**Sut i gyfrannu at amcanion gwella ar gyfer y dyfodol**

Mae'r Awdurdod yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus bob blwyddyn, pryd y mae'n cyhoeddi ei amcanion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn gwahodd sylwadau gan bawb sydd â diddordeb yng ngwaith yr Awdurdod. Rhoddir ystyriaeth i bob sylw a ddaw i law cyn cyhoeddi'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu syniadau newydd ynglŷn ag amcanion gwella ar gyfer y dyfodol ysgrifennu at y Prif Swyddog Tân yn y cyfeiriad uchod.

## Atodiad A

Cyfraniadau ariannol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

| £ | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 3,200,523 | 3,190,812 | 3,330,579 | 3,356,175 | 3,522,798 | 3,592,944 |
| **Gwynedd** | 5,602,787 | 5,598,221 | 5,851,817 | 5,914,137 | 6,226,618 | 6,363,994 |
| **Conwy** | 5,289,891 | 5,277,177 | 5,539,433 | 5,589,830 | 5,875,914 | 6,005,505 |
| **Sir Ddinbych** | 4,360,740 | 4,363,962 | 4,524,683 | 4,568,797 | 4,805,681 | 4,898,654 |
| **Sir y Fflint** | 7,033,548 | 7,022,578 | 7,339,795 | 7,409,315 | 7,790,476 | 7,968,197 |
| **Wrecsam** | 6,398,354 | 6,433,093 | 6,574,970 | 6,654,624 | 7,015,625 | 7,112,560 |
| **CYFANSWM** | **31,885,843** | **31,885,843** | **33,161,277** | **33,492,877** | **35,237,112** | **35,941,854** |
| **Amcanestyniad o'r boblogaeth[4]** | 695,549 | 697,122 | 698,715 | 700,310 | 701,922 | 703,548 |
| **Cost y pen o'r boblogaeth** | £46 | £46 | £47 | £48 | £50 | £51 |

| £ | Cyfraniad 2019/20 £ | Amcanestyniad o'r boblogaeth | Cyfraniad y cytunwyd arno 2020/21 | Newid gwirioneddol | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 3,522,798 | 70,169 | 3,592,944 | 70,146 | 1.99% |
| **Gwynedd** | 6,226,618 | 124,426 | 6,363,994 | 137,376 | 2.20% |
| **Conwy** | 5,875,914 | 117,223 | 6,005,505 | 129,591 | 2.20% |
| **Sir Ddinbych** | 4,805,681 | 95,931 | 4,898,654 | 92,973 | 1.93% |
| **Sir y Fflint** | 7,790,476 | 155,442 | 7,968,197 | 177,721 | 2.28% |
| **Wrecsam** | 7,015,625 | 140,358 | 7,112,560 | 96,935 | 1.38% |
| **CYFANSWM** | **35,237,112** | **703,549** | **35,941,854** | **704,742** | **1.99%** |

[4] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2014-based/populationprojections-by-localauthority-year